- Bank details (the account into which the pension will be paid, and the lump sum if any);
- Spouse's / Civil Partner's / Eligible Co-habiting Partner's Birth Certificate (if applicable);
- Marriage Certificate / Civil Partnership Declaration (if applicable);
- Decree Absolute / Dissolution of a Civil Partnership Certificate (if applicable);
- Spouse's / Civil Partner's Death Certificate (if applicable).

Please contact the Pension Fund to confirm whether original / certified copies or copies of these certificates are acceptable.

You will also be requested to supply details of any other pension benefits that you are entitled to receive (or are already receiving), so that a test can be made against your Lifetime Allowance.

Please note that your benefits will NOT be released until this declaration has been completed and returned to the Pension Fund.

Aelodau'n prynu Blynyddoedd Ychwanegol o Aelodaeth

Yn y gorffennol roedd y cyfleuster hwn yn caniatáu i chi brynu blynyddoedd ychwanegol o aelodaeth oddi fewn i GPLIL ond fe'i ddi-ddymwyd yn ddiweddarach o'r Cynllun ar Ebrill 1, 2008. Fodd bynnag, fe anrhydeddwyd yr holl gytundebau fel ar Mawrth 31, 2008. Bydd gwerth yr aelodaeth yma yn cael ei gynnwys wrth gyfrif eich buddion, a'u cynnwys yn eich pecyn ymddeoliad.

Aelodau'n talu pensiwn blynyddol ychwanegol

Gelwir yr opsiwn yma ynghynt fel Cyfraniadau Rheolaidd Ychwanegol (CRhY), yna daeth yn adnabyddus fel trefniant Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol (CPY) o 1 Ebrill 2014. Mae'r cyfleuster hwn yn caniatáu i chi brynu pensiwn blynyddol ychwanegol oddi fewn y CPLIL. Fe fydd gwerth eich pensiwn ychwanegol a brynwyd yn cael ei gynnwys yng nghyfrifiad eich buddion, ac unwaith eto byddant yn ymddangos yn eich pecyn ymddeoliad. Os ydych wedi ymrwmo i gontract CYRh ar neu cyn 31 Mawrth 2014, bydd yn cael ei anrhydeddu.

Aelodau'n talu Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY mewnol)

Fe gysylltir â darparwr mewnol CGY i sefydlu gwerth eich Cronfa CGY ar bwynt eich ymddeoliad. Fe fydd y symiau yma yn cael eu cynnwys oddi fewn i'ch pecyn ymddeoliad.

Byddwch wedyn yn cael y dewis o:

- ddefnyddio eich CGY i brynu blwydd-dal un ai gyda'ch darparwr neu unrhyw ddarparwr arall ar y farchnad agored;
- brynu swm ychwanegol o bensiwn oddi fewn i CPLIL;
- tynnu eich cronfa fel arian rhydd o dreth (yn amodol ar gyfyngiadau CThEM); neu
- ohirio taliad eich cronfa CGY.

Er mwyn sicrhau taliad amserol o'ch buddion pensiwn byddai o werth i chi ofyn i Adran Cyflogres eich cyflogwr i atal eich taliadau CGY yn ystod y mis cyn eich ymddeoliad, fel bod digon o amser i drosglwyddo'ch cronfa CGY i'ch Cronfa Pensiwn.

Members purchasing Additional Years of Membership

This facility formerly allowed you to purchase additional years of membership within the LGPS, but was subsequently removed from the Scheme on 1 April 2008. However, all contracts as at 31 March 2008 were honoured. The value of this additional membership will be included in the calculation of your benefits, and the amounts illustrated within your retirement pack.

Members purchasing additional annual pension

Formerly known as an Additional Regular Contribution (ARC) arrangement, this then became known as an Additional Pension Contribution (APC) arrangement from 1 April 2014. This facility allows you to purchase additional annual pension within the LGPS. The value of additional pension purchased will be included in the calculation of your benefits, and again the amounts illustrated within your retirement pack. If you entered into an ARC contract on or before 31 March 2014, it will be honoured.

Members paying Additional Voluntary Contributions (In-house AVCs)

The in-house AVC provider will be contacted to establish the value of your AVC Fund at the point of retirement. These amounts will then be provided within your retirement pack.

You will subsequently be given the option to:

- use your AVC fund to buy an annuity with either your provider, or with any other provider on the open market;
- buy an additional amount of pension within the LGPS;
- withdraw your fund as tax free cash (subject to HMRC limits); or
- defer the payment of your AVC fund.

To ensure the timely payment of your pension benefits it may be worth asking your employer's Payroll Department to stop your AVC payments the month before your retirement, so that there is sufficient time to transfer your AVC fund to the Pension Fund.

Wedi eich Ymddeoliad

Sut a phryd fydd fy mhensiwn yn cael ei dalu?

Telir eich pensiwn blynyddol fesul ôl daliadau mis calendr tua diwedd y mis, fel arfer. Fe fydd yn cael ei dalu yn uniongyrchol i Fanc neu Gymdeithas Adeiladu o'ch dewis chi. Bydd y Gronfa yn cadarnhau dyddiadau taliad yn eu pryd. Mae felly yn bwysig iawn eich bod yn rhoi Rhif Cyfrif a Chod Didoli cywir.

Bydd taliad cyntaf eich pensiwn yn berthnasol i'r cyfnod o ddyddiad eich ymddeoliad hyd at ddiwedd y mis, ac weithiau'r mis dilynol cyfan, yn dibynnu pryd yr ydych yn ymddeol. Nodwch os gwelwch yn dda **na all** y Gronfa dalu eich pensiwn i **Gyfrif Cerdyn Swyddfa'r Post**.

Beth os ydwyf yn penderfynu byw dramor?

Os ydych yn penderfynu ymfudo, fe barheir i dalu eich pensiwn i'ch cyfrif banc/cymdeithas adeiladu gyfredol oni bai eich bod yn dymuno iddo gael ei dalu i gyfrif tramor. Nodwch os gwelwch yn dda y gall gweithrediad tramor olygu cost fechan ar gyfer cyfnewid arian cyfred a throsglwyddiad taliad.

Beth os yw fy manylion yn newid?

Os ydych yn newid eich cyfeiriad neu eich cyfrif banc /cymdeithas adeiladu rhaid i chi hysbysu'r Gronfa yn **ysgrifenedig** yn syth fel y gellir diweddarau eich cofnod.

Dylid trosglwyddo gwybodaeth am newidiadau i fanylion cyfrifon banc / cymdeithas adeiladu cyn canol y mis yr ydych eisiau i'r newid ddigwydd; neu gall eich pensiwn gael ei dalu i'ch cyfrif blaenorol. Nodwch os gwelwch yn dda bod yn rhaid i'r cyfrif banc / cymdeithas adeiladu fod yn eich enw chi neu enwau ar y cyd.

I newid eich cyfeiriad neu fanylion cyfrif banc /cymdeithas adeiladu, cysylltwch â'ch Cronfa Bensiwn os gwelwch yn dda.

After your Retirement

How and when will my pension be paid?

Your annual pension will be paid calendar monthly in arrears, usually towards the end of the month. It will be paid directly into your chosen Bank or Building Society account. The Fund will confirm your payment dates in due course. It is therefore very important that you provide an accurate Account Number and Sort Code.

Your first payment of pension will cover the period from the date of your retirement to the end of that month, and sometimes all of the following month, depending on when you retire. Please note that the Fund is **unable** to pay your pension directly into a **Post Office Card Account**.

What if I decide to go and live overseas?

If you decide to emigrate, your pension will continue to be paid into your current bank / building society account, unless you wish it to be paid into an overseas account. Please note that overseas transactions may attract a small charge for currency conversion and transmission of the payment.

What if my details change?

If you change your address or bank / building society account details you must notify the Fund **in writing** immediately so that your record is updated.

Changes to bank / building society account details should be conveyed before the middle of the month in which you wish the change to apply; otherwise your pension may be paid to your previous account. Please note that the bank / building society account must be in your name or in joint names.

To change your address or bank / building society account details, please contact the Pension Fund.

Treth Incwm

Mae eich pensiwn CPLIL yn drethadwy, ond fe delir eich lwmp swm yn rhydd o dreth. Bydd pa un ai ydych yn talu treth wrth ymddeol yn dibynnu ar swm eich pensiwn a'ch amgylchiadau personol*.

Pan fyddwch yn ymddeol, dylech dderbyn copi o'ch P45. Mae'n rhaid i'ch Cyflogwr anfon P45 ymlaen yn uniongyrchol i'ch Cronfa Bensiwn ble fydd y cod treth briodol yn cael ei roi yn erbyn eich pensiwn o dan drefniant dros dro arbennig.

Bydd y Gronfa wedyn yn hysbysu'r CThEM eich bod yn derbyn eich pensiwn ac fe fydd cod treth newydd yn cael ei roi. Os na wyddir eich cod treth yn syth, fe ddefnyddir cod dros dro hyd nes cyhoeddir cod briodol.

Os ydych yn dymuno gwneud ymholiad ynglŷn â'ch cod treth cysylltwch â'ch swyddfa dreth leol.

***Nodwch fod y lwfans blynyddol ar gyfer cynilion pensiwn treth freintiedig wedi cael ei osod ar £40,000 o fis Ebrill 2014. Cysylltwch â'ch adran pensiwn am fanylion pellach.**

Ailbrisiu eich Pensiwn

Mae eich pensiwn blynyddol wedi ei ddiogelu'n llawn yn erbyn chwyddiant a bydd yn cael ei ailbrisiu pob mis Ebrill yn unol â mynegai costau byw priodol. Mae hyn yn berthnasol yn awtomatig i bensiynau salwch a goroeswyr.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'ch Cronfa Bensiwn os gwelwch yn dda.

Slip Tâl

Ni fydd y Gronfa yn anfon slip tâl i chi yn fisol, oni bai bod gwerth eich pensiwn net yn amrywio. Byddwch yn derbyn slip tâl pan fyddwch yn ymddeol gyntaf, ond wedi hynny byddwch ond yn derbyn un yn fis Ebrill ac o bosib mis Mai bob blwyddyn, yn rhoi manylion o unrhyw gynnydd yn eich buddion pensiwn.

Income Tax

Your LGPS pension is taxable, but your lump sum is paid tax free. Whether you pay tax when you retire depends on the amount of your pension and your personal circumstances*.

When you retire, you should receive a copy of your P45. Your Employer has to forward the P45 directly to the Pension Fund where the appropriate tax code will be applied against your pension under a special temporary arrangement.

The Fund will then notify the HMRC that you are in receipt of your pension and a new tax code will be issued. If your tax code is not known immediately, a temporary code will be applied until the appropriate code is supplied.

If you wish to make an enquiry about your tax coding please contact your local tax office.

***Please note that the annual allowance for tax-privileged pensions savings has been set at £40,000 from April 2014. Please contact your pension section for further details.**

Revaluation of our Pension

Your annual pension is fully protected against inflation and is revalued each April in line with the appropriate cost of living index. This will automatically apply to ill health and survivor pensions.

For further information please contact the Pension Fund.

Payment Advice

The Fund will not send you a payment advice slip each month, unless the value of your net pension varies. You will receive a payment advice slip when you first retire, but thereafter you will only receive one in April and possibly May of each year, giving details of any increase in your pension benefit.

Hysbysiad P60

Pob blwyddyn bydd eich Cronfa yn rhoi datganiad i chi a adnabyddir fel P60. Mae hwn yn rhoi manylion eich enillion CPLIL a'r treth a dalwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol o Ebrill i Fawrth. Mae angen i chi gadw hwn yn ddiogel oherwydd mae cyrff eraill yn aml yn gofyn amdano fel tystiolaeth o enillion.

Cyflogaeth arall

Os ydych yn cael swydd arall gyda Chyflogwr sy'n cymryd rhan mewn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, gall hyn effeithio ar eich pensiwn. Mae gan y Gronfa bolisi sefydlog ar y mater hwn, a gall eich pensiwn gael ei leihau neu ei ohirio.

Am ragor o wybodaeth ar y mater hwn, cysylltwch â'ch Cronfa Bensiwn os gwelwch yn dda. Ni fydd cael swydd gydag unrhyw gyflogwr y tu allan i CPLIL yn effeithio ar daliad eich pensiwn.

Os ydych yn cael gwaith gyda Chyflogwr sy'n cymryd rhan mewn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, rhaid i chi ddweud wrth eich Cronfa Bensiwn cyfredol a blaenorol yn **ysgrifenedig**, fel y gellir gwneud yr asesiad angenrheidiol.

P60 Notification

Each year the Fund will supply you with a statement known as a P60. This provides details of your LGPS earnings and the tax paid during the previous year from April to March. You need to keep this safe as other bodies often ask for it as proof of earnings.

Re-employment

If you get another job with an Employer who participates in the Local Government Pension Scheme, your pension may be affected. The Fund has a set policy on this matter, and it may be the case that your pension is either reduced or suspended.

For further information on this matter please contact the Pension Fund. Re-employment with any employer outside the LGPS will not affect the payment of your pension.

Should you become re-employed with an Employer who participates in the Local Government Pension Scheme, you must inform both your current and former Pension Fund **in writing**, so that the necessary assessment can be made.

Pensiwn Gwladol

Mae'r buddion sy'n daladwy o dan y CPLIL yn ychwanegol i unrhyw bensiwn sy'n daladwy o dan y Gynllun Gwladol. I gael gwybodaeth ynglŷn â phryd y gallwch ddisgwyl cael eich Pensiwn Gwladol neu i dderbyn amcangyfrif, cysylltwch os gwelwch yn dda â'r Adran Gwaith a Phensiynau (AGP) drwy ffonio **0800 731 7936**, neu edrychwch ar ei gwefan: www.gov.uk/browse/working/state-pension

Os ydych yn ymddeol cyn cyrraedd oedran y pensiwn gwladol, NI fydd unrhyw Yswiriant Gwladol yn cael ei didynnu o'ch pensiwn. Felly, byddai'n ddoeth gofyn i'r AGP gadarnhau a ydych wedi talu digon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol i fod yn gymwys i gael Pensiwn Sylfaenol llawn gan y Wladwriaeth. Os nad ydych, mae'n bosibl y bydd rhaid ichi drefnu bod taliadau ychwanegol yn cael eu gwneud.

Gan y bu cryn newid o ran y pensiwn gwladol, fe'ch cynghorir i gysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau i gael rhagor o wybodaeth (ceir manylion cyswllt ar **dudalen 19**).

The State Pension

Benefits payable under the LGPS are in addition to any pension paid via the State Scheme. For information on when you can expect to receive your State Pension or to receive a forecast, please contact the Department of Work & Pensions (DWP) on **0800 731 0175** or visit their website: www.direct.gov.uk

If you retire before State Pension Age, there will be NO deduction from your pension in respect of National Insurance (NI). It is therefore advisable to seek advice from the DWP to assess whether or not your NI record is sufficient enough to fund a full State Pension. If not, you may have to make further payments by own arrangement.

As there has been considerable change concerning the State Pension, please be advised to contact the Department for Work & Pensions (DWP) for further information (please see **page 19** for contact details).

Marwolaeth mewn Ymddeoliad

Os ydych yn marw wrth dderbyn eich pensiwn, ni fydd eich buddion yn daladwy bellach. Mae'n rhaid i'ch priod, partner sifil cofrestredig, partner sy'n gyd fyw cymwys, perthynas agosaf, neu'r person sy'n ymdrin â'ch ystâd hysbysu'r Gronfa Pensiwn yn syth am eich marwolaeth i osgoi unrhyw or-daliad o'ch pensiwn.

Fodd bynnag, bydd lwmp swm grant marwolaeth yn daladwy os yw marwolaeth yn digwydd yn ystod 10 mlynedd gyntaf eich ymddeoliad ac eich bod dan 75 mlwydd oed. Y grant marwolaeth sy'n daladwy yw'r swm y mae'r pensiwn blynyddol wedi ei luosi gan 10 yn fwy na'r pensiwn a dalwyd hyd at ddyddiad marwolaeth (10 gwaith gwerth y pensiwn llai unrhyw beth a dalwyd eisoes h.y. gweddill 10 mlynedd).

Bydd grant marwolaeth ond yn daladwy os ydych dan 75 mlwydd oed ar ddyddiad marwolaeth. Dylech sicrhau eich bod wedi cwblhau ffurflen Mynegi Dymuniad Grant Marwolaeth fel y gall y Gronfa ystyried eich dymuniad wrth wneud y taliad yma.

I dderbyn ffurflen Mynegi Dymuniad Grant Marwolaeth, cysylltwch â'r Gronfa Bensiwn os gwelwch yn dda.

Nodwch

Os ydych yn cael buddion pensiwn arall oddi wrth CPLIL ar neu cyn 31 Mawrth 2008, y grant marwolaeth sy'n daladwy yw'r swm y mae'r pensiwn blynyddol wedi ei luosi gyda 5 yn fwy na'r pensiwn a delir ar ddyddiad marwolaeth (5 gwaith gwerth y pensiwn llai unrhyw beth a dalwyd eisoes h.y. balans 5 mlynedd).

Os oedd eich buddion pensiwn wedi cael eu gohirio ar 31 Mawrth 2008, neu cyn hynny, ac yna wedi dechrau cael eu talu ar 1 Ebrill 2008, neu ar ôl hynny, y grant marwolaeth a delir os digwydd ichi farw fel aelod sy'n bensiynwr yw 5 gwaith gwerth y pensiwn llai unrhyw arian a dalwyd eisoes. Yr unig bryd y telir grant marwolaeth yw os ydych yn marw'n iau na 75 mlwydd oed.

Death in Retirement

If you die while receiving your pension, your benefits will no longer be payable. Your spouse, registered civil partner, eligible co-habiting partner, next-of-kin or the person dealing with your Estate must notify the Pension Fund immediately of your death, to avoid any overpayment of your pension.

However, a lump sum death grant will be payable if the death occurs in the first 10 years of your retirement and you are under age 75. The death grant payable is the amount by which the annual pension multiplied by 10 exceeds the pension paid to the date of death (10 times the value of the pension less any already paid i.e. a 10 year balance).

A death grant will only be payable if you are under age 75 at the date of death. You should ensure that you have completed an up to date Death Grant Expression of Wish form so that the Fund may consider your wish when making this payment.

To obtain a Death Grant Expression of Wish form, please contact the Pension Fund.

Please note

If you became in receipt of another pension benefit from the LGPS on or before the 31 March 2008, the death grant payable is the amount by which the annual pension multiplied by 5 exceeds the pension paid to the date of death (5 times the value of the pension less any already paid i.e. a 5 year balance).

If your pension benefits became deferred on or before 31 March 2008 and subsequently came into payment on or after 1 April 2008, the death grant payable in the event of your death as a pensioner member is 5 times the value of the pension less any already paid. A death grant will only be payable if you are under the age 75 at the date of death.

Buddion Goroeswr

Yn dilyn eich marwolaeth, bydd pensiwn goroeswr yn daladwy i'ch priod, partner sifil cofrestredig neu bartner sy'n cyd fyw cymwys. Mae pensiwn y goroeswr wedyn yn daladwy trwy gydol eu hoes.

Ar gyfer aelodaeth a adeiladwyd i fyny o 1 Ebrill 2014 hyd at eich dyddiad marwolaeth, mae'r pensiwn sy'n daladwy yn hafal i 1/160 o'ch cyflog pensiynadwy wedi ei luosi gyda'r aelodaeth yn y cynllun ar ôl 31 Mawrth 2014; ynghyd â 49/160 o swm unrhyw bensiwn gredydu i'ch cyfrif pensiwn yn dilyn trosglwyddo hawliau pensiwn; yn ogystal â phensiwn sy'n hafal i 1/160 o'ch cyflog pensiynadwy tybiedig ar gyfer pob blwyddyn o aelodaeth y byddai wedi cael ei adeiladu i fyny o'ch dyddiad marwolaeth hyd at eich OPA.

Ar gyfer aelodaeth a adeiladwyd i fyny cyn 1 Ebrill 2014, mae'r pensiwn sy'n daladwy yn hafal i 1/160 o'ch cyflog terfynol wedi ei luosi gyda eich aelodaeth yn y cynllun hyd at 31 Mawrth 2014 (os ydych yn priodi ar ôl eich ymdeoliad, gall y buddion fod yn llai).

Fodd bynnag, os ydych wedi enwebu eich partner sy'n cyd fyw cymwys, seilir pensiwn y goroeswr ar yr aelodaeth yr ydych wedi ei hadeiladu o 6 Ebrill 1988, oni bai eich bod wedi talu cyfraniadau ychwanegol er mwyn adfer unrhyw gyfnod o aelodaeth cyn y dyddiad yma.

Mae'n bosib y bydd eich plentyn / plant cymwys hefyd â'r hawl i dderbyn pensiwn goroeswr, ar yr amod eu bod dan 18 mlwydd oed, neu mewn addysg llawn amser di-dor neu yn ymgymryd â hyfforddiant galwedigaethol llawn amser ac o dan 23 mlwydd oed.

Gall fod modd rhoi ystyriaeth arbennig os oes gennych blentyn sy'n analluog yn gorfforol neu feddyliol, ac y gellir talu'r pensiwn am y cyfnod y bydd yr anabledd yn parhau.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'ch Cronfa Bensiwn os gwelwch yn dda.

Proses Datrys Anghydfod Mewnol (PDAM)

Os oes gennych gŵyn neu anghydfod, unai yn erbyn y Gronfa neu eich cyflogwr blaenorol mewn perthynas â chyfrifiad neu daliad eich buddion pensiwn, neu yn ymwneud ag unrhyw fater arall yn ymwneud â'ch buddion CPLIL mae yna ddarpariaeth ar gyfer datrys a adnabyddir fel Proses Datrys Anghydfod Mewnol (PDAM).

Am ragor o wybodaeth, neu i gael ffurflen gais cysylltwch â'r Gronfa Bensiwn os gwelwch yn dda.

Survivor Benefits

Following your death, a survivor's pension will be payable to your spouse, registered civil partner, or eligible co-habiting partner. The survivor's pension is then payable for their lifetime.

For membership built up from 1 April 2014 to your date of death, the pension payable is equal to 1/160th of your pensionable pay times your membership in the scheme after 31 March 2014; plus 49/160ths of the amount of any pension credited to your pension account following a transfer of pension rights; plus a pension equal to 1/160th of your assumed pensionable pay for each year of membership you would have built up from your date of death to your NPA.

For membership built up before 1 April 2014, the pension payable is equal to 1/160th of your final pay times your membership in the scheme up to 31 March 2014 (unless you marry after your retirement, in which case it could be less).

However, if you have an eligible co-habiting partner, the survivor's pension is based on the membership you have built from 6 April 1988, unless you have paid additional contributions to reinstate any period of membership before this date.

Your eligible child / children may also be entitled to a survivor's pension, provided they are under the age of 18, or if in full time continuous education or undertaking vocational training, under the age of 23.

If you have a child that is physically or mentally incapacitated, special consideration may be given and the pension may be paid for as long as the disability continues.

For further information please contact the Pension Fund.

Internal Dispute Resolution Process (IDRP)

If you have a complaint or a dispute, either against the Fund or your former employer in relation to the calculation or payment of your pension benefits, or concerning any other matter connected to your LGPS benefits, there is a provision for its resolution known as the Internal Dispute Resolution Procedure (IDRP).

For further information, or to obtain an application form please contact the Pension Fund.

Cysylltiadau defnyddiol

Ymholiadau Pensiwn Gwladol

Os oes gennych unrhyw ymholiadau Pensiwn Gwladol cysylltwch â'r:

Adran Gwaith a Phensiynau (AGP)

Ffôn: **0800 731 7936**

Gwefan: **www.gov.uk/browse/working/state-pension**

Y Gwasanaeth Olrhain Pensiynau

Os ydych wedi colli manylion am gynllun pensiwn ac angen cymorth i gysylltu â darparwr, efallai y gall Gwasanaeth Olrhain Pensiynau eich helpu. Mae gan y gwasanaeth fynediad at dros 200,000 o gynlluniau ac mae'n rhad ac am ddim.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch os gwelwch yn dda â:

Ffôn: **0800 731 0193**

Gwefan: **www.gov.uk/find-lost-pension**

Ymholiadau Treth Incwm

Os oes gennych unrhyw gwestiwn ynglŷn â'ch treth dylech gysylltu â'ch swyddfa dreth, gan ddatgan eich rhif Yswiriant Gwladol.

Diogelu Data

Cyngor Dinas Caerdydd yw gweinyddwr Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg a defnyddiwn eich data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data i ddarparu gwasanaethau gweinyddu pensiwn i chi. Am ragor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio'ch data, pwy rydym yn ei rhannu â, a pha hawliau sydd gennych chi mewn perthynas â'ch gwybodaeth, ewch i'r Hysbysiad Preifatrwydd ar wefan Cronfa Bensiwn: <http://www.cronfabensiwncaerdyddarfro.org.uk/>

Useful Contacts

State Pension Enquiries

If you have any queries concerning your State Pension, please contact the:

Department for Work & Pensions (DWP)

Tel: **0800 731 7898**

Website: **www.gov.uk/browse/working/state-pension**

The Pensions Tracing Service

If you have lost details about a pension scheme and need help contacting the provider, the Pension Tracing Service may be able to help. The service has access to over 200,000 schemes and is free of charge.

To find out more please contact:

Tel: **0800 731 0193**

Website: **www.gov.uk/find-lost-pension**

Income Tax Enquiries

If you have any question about your tax you should contact the tax office, quoting your National Insurance number.

Data Protection

The City of Cardiff Council is the administering authority of the Cardiff and Vale of Glamorgan Pension Fund and we use your personal data in accordance with Data Protection legislation to provide you with pension administration service. For more information about how we use your data, who we share it with and what rights you have to in relation to your information, please visit the Privacy Notice on the Pension Fund website: www.cardiffandvalepensionfund.org.uk

Rhestr Wirio

Cyn Ymddeol

Er mwyn i'ch buddion pensiwn ddod yn daladwy, sicrhewch y dychwelir y dogfennau canlynol i'r Gronfa Pensiwn mor fuan â phosibl os gwelwch yn dda:

- Datganiad Arian Rhydd o Dreth
- Manylion Banc / Cymdeithas Adeiladu
- Datganiad Lwfans Oes
- Tystysgrif Geni
- Tystysgrif Geni eich Priod / Partner Sifil / Partner sy'n cyd fyw*
- Tystysgrif Priodas / Datganiad Partneriaeth Sifil*
- Archddyfarniad Absoliwt / Tystysgrif Diddymiad Partneriaeth Sifil*
- Tystysgrif Marwolaeth Priod / Partner Sifil*

*os yn berthnasol

Ar ôl Ymddeol

Os ydych yn newid manylion eich cyfrif Banc / Cymdeithas Adeiladu / manylion cyfeiriad / statws priodasol hysbyswch eich Cronfa Bensiwn yn **ysgrifenedig** yn syth os gwelwch yn dda neu ofyn i'r ffurflen briodol gael ei hanfon atoch.

Nodwch os gwelwch yn dda NA fydd y Gronfa yn anfon slip manylion tâl atoch bob mis, oni bai bod gwerth eich pensiwn net yn amrywio. Byddwch yn derbyn slip manylion tâl pan fyddwch yn ymddeol am y tro cyntaf, ond ar ôl hynny byddwch yn derbyn un ym mis Ebrill a Mai bob blwyddyn yn unig, yn rhoi manylion unrhyw gynydd yn eich budd pensiwn.

Os oes gennych unrhyw ymholiad cysylltwch â'ch Cronfa Bensiwn os gwelwch yn dda.

Checklist

Pre Retirement

For your pension benefits to come into payment, please ensure that the following documents are returned to the Pension Fund as soon as possible:

- Tax Free Cash Declaration
- Bank / Building Society Details
- Lifetime Allowance Declaration
- Birth Certificate
- Spouse's / Civil / Co-Habiting Partner's Birth Certificate*
- Marriage Certificate / Civil Partnership Declaration*
- Decree Absolute / Dissolution of Civil Partnership Cert.*
- Spouse's / Civil Partner's Death Certificate*

*if applicable

Post Retirement

If you change your Bank / Building Society account details / address details / marital status, please notify the Pension Fund immediately **in writing** or request that the appropriate form be sent to you.

Please note that the Fund will NOT send you a payment advice slip each month, unless the value of your net pension varies. You will receive a payment advice slip when you first retire, but thereafter you will only receive one in April and May of each year, giving details of any increase in your pension benefit.

If you have any enquiries please contact the Pension Fund.